**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN**

**14 EBRILL 2023**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: W.F.Griffiths, S.Jones (Cadeirydd) a/ac D.M.Peters

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, J.Stevens, R.Crowhurst, D. Phillips, Rees, C.Roberts, J Davies a/ac C.Plowman

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd penodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Jones | Mewn perthynas ag eitem rhif 18 ar yr agenda, Cynnig Arfaethedig i Waredu 103 Hectar o Dir Amaethyddol yn Amodol ar Denantiaeth Gerllaw Fferm Hendre Owen yn Nyffryn Rhondda, Port Talbot, gan ei fod wedi'i benodi i Fforwm Cyswllt Wildfox. |

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Peters | Mewn perthynas ag eitem rhif 18 ar yr agenda, Cynnig Arfaethedig i Waredu 103 Hectar o Dir Amaethyddol yn Amodol ar Denantiaeth Gerllaw Fferm Hendre Owen yn Nyffryn Rhondda, Port Talbot, gan ei fod wedi'i benodi i Fforwm Cyswllt Wildfox. |
| Y Cyng. W Griffiths | Mewn perthynas ag eitem rhif 19 ar yr agenda, Ystafelloedd dosbarth modiwlaidd yn Ysgolion Hendrefelin (safle Bryncoch), ac ysgolion cynradd Blaenhonddan a Chrymlyn, gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan ac mae Ysgol Hendrefelin yn ei Ward |

4. **<u>AMSER CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5. **<u>RHAGLEN GYFALAF TRAFFIG 2023-2024: GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG. CYNLLUNIAU TEITHIO LLESOL 2023-2024; GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG. LLEOEDD PARCIO UNIGOL I'R ANABL (LLPUA) 2023-2024; GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG. CYFLWYNO TERFYN CYFLYMDER DIOFYN 20MYA LLYWODRAETH CYMRU 2023-2024; GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG.</u>**

**<u>Penderfyniadau:</u>**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo hysbysebu'r cynlluniau canlynol, yn unol â'r gofynion statudol:

- Rhaglen Gyfalaf Traffig 2023-2024 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

- Rhaglen Teithio Llesol 2023-2024 (fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd)
- Rhaglen Lleoedd Parcio Unigol i'r Anabl (LlPUA) 2023-2024 (fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad a ddosbarthwyd)
- Rhaglen Cyflwyno Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2023-2024 (fel y nodir yn Atodiad Ch i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

2. Bod y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a gynhwysir yn y Rheoliadau Traffig Ffyrdd cyfredol, ar yr amod na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau. Os bydd unrhyw wrthwynebiadau'n cael eu derbyn mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau, adroddir yn ôl am y rhain wrth Fwrdd Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet am benderfyniad.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniadau:</u>**

Roedd y cynlluniau'n angenrheidiol er budd diogelwch ffyrdd, gan leihau cyflymder, hyrwyddo Teithio Llesol, darparu Lleoedd Parcio Unigol i Bobl Anabl (LlPUA), cilfachau parcio â blaenoriaeth ar y stryd a chyflwyno darpariaethau parcio ddigonol o fewn y Fwrdeistref.

**<u>Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

6. **<u>A474 HEOL PONTARDAWE, RHYD-Y-FRO, PONTARDAWE, A474 HEOL Y GORS, CWMGORS, A474 HEOL CAE GURWEN, GWAUNCAEGURWEN, A474 HEOL Y GRAIG,GWAUNCAEGURWEN, A4069 HEOL BRYNAMAN, GWAUNCAEGURWEN A BRYNAMAN ISAF, A4069 HEOL CANON, BRYNAMAN ISAF, A4069 STRYD Y PARC, BRYNAMAN ISAF, A4069 HEOL AMAN, BRYNAMAN ISAF, A4069 HEOL YR ORSAF, BRYNAMAN ISAF (DIDDYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2023</u>**

**<u>Penderfyniadau:</u>**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd y gwrthwynebiadau'n cael eu cadarnhau mewn perthynas â'r A474 Heol Pontardawe, Rhyd-Y-Fro, Pontardawe, A474 Heol Y Gors, Cwmgors, A474 Heol Cae Gurwen, Gwauncaegurwen, A474 Heol Y Graig, Gwauncaegurwen, A4069 Heol Brynaman,

Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf, A4069 Heol Canon, Brynaman Isaf, A4069 Stryd Y Parc, Brynaman Isaf, A4069 Heol Aman, Brynaman Isaf, A4069 Heol Yr Orsaf, Brynaman Isaf (Diddymu) A (Terfyn Cyflymder 30Mya) - Gorchymyn 2023, (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

- Ymgynghorir ar gynllun diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd). Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, caiff y cynigion eu rhoi ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir. Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Roedd angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar yr A4069 Heol Aman, Brynaman Isaf o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol/gwledig ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

Yn ôl y cyngor, roedd y terfyn cyflymder 30mya arfaethedig yn derfyn cyflymder priodol ar gyfer y math yma o ffordd ac roedd y terfyn cyflymder arfaethedig yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

7. **A474 STRYD IAGO I HEOL PONTARDAWE (DIDDYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid diystyru'r gwrthwynebiadau i'r A474 James Street i Ffordd Pontardawe (Diddymu) a (Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2023, (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a rhoi'r cynllun ar waith fel yr hysbysebwyd. Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar yr A474 Stryd Iago i Heol Pontardawe o fewn y fwrdeistref

wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

8. **HEOL BRYN, CWMLLYNFELL, HEOL COEDFFALDAU, RHIWFAWR, HEOL Y GWRHYD, RHIWFAWR A HEOL Y GOEDLAN, RHIWFAWR (DIDDYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid diystyru'r gwrthwynebiadau i Heol y Bryn, Cwmllynfell, Heol Coedffaldau, Rhiwfawr, Heol y Gwrhyd, Rhiwfawr a Heol y Goedlan, Rhiwfawr (Dirymiad) a (Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2023 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a rhoi'r cynllun ar waith fel yr hysbysebwyd a'i fonitro wrth symud ymlaen. Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar Heol y Bryn, Cwmllynfell, Heol Coedffaldau, Rhiwfawr, Heol y Gwrhyd, Rhiwfawr a Heol y Goedlan, Rhiwfawr o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

9. **Y FFORDD O GOETRE I FRYN (DIDDYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 30MYA)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, caiff y gwrthwynebiadau eu cadarnhau yn rhannol i'r Ffordd o Goetre i Fryn

(Diddymu) a (Terfyn Cyflymder 30Mya) – Gorchymyn 2022 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac ymgynghorir ar gynllun diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd). Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, caiff y cynigion eu rhoi ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchymyn i ganiatáu addasu'r terfyn cyflymder presennol ar y Ffordd o Goetre i Fryn i 20mya er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith mewn ardaloedd trefol/gwledig ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

Ym marn y cyngor fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, nid oedd y bylchau rhwng goleuadau stryd yn dilyn y rheoliad ac felly roedd angen rhoi terfyn cyflymder 20mya ar waith.

Yn ôl y cyngor, roedd y terfyn cyflymder 20mya arfaethedig yn derfyn cyflymder priodol ar gyfer y math yma o ffordd ac roedd y terfyn cyflymder arfaethedig yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

10. **A474 HEOL NEWYDD, GELLINUDD (DIDDYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, dylid diystyru'r gwrthwynebiad i'r A474 Heol Newydd, Gellinudd (Dirymiad) a (Terfyn Cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2023 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a rhoi'r cynllun ar waith ar y safle fel yr hysbysebwyd. Hysbysir y gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchymyn i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar yr A474 Heol Newydd, Gellinudd, Rhos o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn

o 20mya ar waith mewn ardaloedd trefol ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

## 11. RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid newid y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy fel a ganlyn:-

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae'r cwmnïau canlynol wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Cwmni Peirianneg Sifil Trident (T038) | 89 |
| Pren W R Lloyd (W043) | 101,111 |
| RIS Reactive Integrated Services Ltd (R045) | 31,111 |
| Nolan uPVC Ltd (N019) | 21,21A,21C,21G |
| Enava Ltd (E033) | 6 |
| SRK Scaffolding Ltd (S0100) | 11 |
| Speedy Asset Services Ltd (L032) | 2,57,111 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

## 12. POLISI PROFI DIOGELWCH CERRIG COFFA

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

- Cymeradwyo mabwysiadu'r polisi profi cerrig coffa diwygiedig fel y nodir yn Atodiad A.
- Bydd y cyngor yn ymgymryd â gwaith, sydd wedi ei ariannu o'r rhaglen gyfalaf, i adfer cerrig coffa sydd wedi methu'r asesiad o dan y polisi blaenorol, ac er cysondeb, byddant yn ad-dalu'r perchnogion beddi sydd eisoes wedi ymgymryd â'r gwaith.
- Rhoi gwybod am y newidiadau i bolisi'r cyngor ar ddiwrnodau agored o fewn y mynwentydd a thrwy wefannau'r mynwentydd, cyn ailddechrau profi.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd gofal mewn perthynas â diogelwch cerrig coffa yn ei fynwentydd, i leihau'r risgiau cysylltiedig i ymwelwyr a'r cyngor, a chynnal mynwentydd y cyngor mewn trefn dda.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

## 13. CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH GWASTRAFF

**Penderfyniadau:**

Yn dilyn cynnig Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn, roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r diwygiadau i'r argymhellion canlynol, fel y nodir isod:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Cymeradwyo mesur 5 gan ystyried defnyddio'r biniau storio deunydd ar gyfer cyflwyno fel yr awgrymir gan y pwyllgor craffu.
- Cymeradwyo mesur 11 heb ohirio ymgynghoriadau ar newidiad posib i gasglu sbwriel bob 3 wythnos, er gwaethaf yr awgrym gan Graffu i'r gwrthwyneb, fodd bynnag, cynhelir yr ymgynghoriad fel ymagwedd fesul cam.
- Datblygu protocol Cyfathrebu i sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol mewn perthynas â chael adborth ar wasanaethau

gwastraff drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy banel y dinasyddion sefydledig ac yn ystod cysylltiadau â chwsmeriaid gyda'r gwasanaeth.

Roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Cymeradwyo mesurau 1, 4, 6, 7, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17, ac 18, a gynhwysir o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd;
- Cymeradwyo mesur 2, sydd wedi'i gynnwys o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Rhoi pwyslais ar bwysigrwydd addysgu'r cyhoedd ar y mesurau newydd posibl, a sicrhau bod taflenni, hysbyseb a fideos 'sut i' rhithwir yn cael eu darparu i'r cyhoedd er mwyn sicrhau ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth'. Rhoi pwyslais ar ddarparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i ailgylchu ar ôl iddo gael ei gasglu;
- Cymeradwyo mesur 3, sydd wedi'i gynnwys o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Darparu diweddariad ar ddarparu bagiau baw cŵn yn yr adroddiad perfformiad chwarterol cyntaf sydd ar gael 12 mis ar ôl i'r bagiau fod ar gael yn gyhoeddus, i gynnwys amserlen o fannau casglu ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- Cymeradwyo mesur 8, sydd wedi'i gynnwys o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Bydd goruchwylwyr Gwasanaethau Gwastraff a Chymdogaethau yn parhau i fonitro lefelau glendid stryd ar draws y Fwrdeistref Sirol a gwneud eu gorau, ynghyd â rheolwyr gwasanaeth, i sicrhau cysondeb o ran cyflwyno gwasanaethau ar draws y Fwrdeistref Sirol trwy gyfeiriad yr adnoddau sydd ar gael iddynt;
- Datblygu protocol cyfathrebu i dynnu sylw at bolisi'r cyngor ar gasgliadau a gollwyd a sicrhau negeseuon cyson;
- Caiff y swm o £350k ei ddefnyddio at ddiben bwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu, a nodwyd fel rhan o broses gyllideb refeniw 2023/24 ar gyfer gwastraff, a'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol fel trosglwyddiad untro o gronfeydd wrth gefn;
- Bydd Pennaeth Gofal Strydoedd yn gwneud cais i'r Cabinet, drwy'r Grŵp Llywio'r Rhaglen Gorfforaethol, ar gyfer dyraniad o £230,000 o'r cyllid cyfalaf o'r cyfalaf wrth gefn er mwyn bwrw ymlaen â'r mesurau a gymeradwywyd.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniadau:</u>**

Y prif reswm dros roi'r cynllun gweithredu ar waith oedd i barhau i wneud cynnydd tuag at gyrraedd y targed ailgylchu statudol nesaf, sef 70%, wrth hefyd fynd i'r afael â rhai materion gwasanaeth.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

14. **PROSIECT CYNLLUN YNNI ARDAL LEOL (CYAL) - CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Nodi’r adroddiad.

15. **FFRAMWAITH CONTRACTWYR PEIRIANNEG SIFIL RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU**

**Penderfyniad:**

Nodi’r adroddiad.

16. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

17. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

18. **CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU 103 HECTAR O DIR AMAETHYDDOL YN AMODOL AR DENANTIAETH GERLLAW FFERM HENDRE OWEN YN NYFFRYN RHONDDA, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, yn amodol ar ddiwallu'r rhwymedigaethau a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio (mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Adfywio Economaidd a Chymunedol) gytuno ac ymrwymo i ddogfennau priodol ar gyfer gwaredu 103 hectar, neu oddeutu hynny, o dir amaethyddol (yn amodol ar denantiaeth amaethyddol) sy'n ffinio â Fferm Hendre Owen, Dyffryn Rhondda, Port Talbot i hwyluso'i ddefnyddio fel Safle Cydadfer Lliniaru Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â chyrchfan Wildfox yng Nghwm Afan.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gael derbyniad cyfalaf ar gyfer gwerthu tir a hwyluso cydymffurfiaeth â chytundeb Adran 106 rhwng y cyngor a'r datblygwr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023.

19. **LLETY DOSBARTH MODIWLAIDD YN YSGOL HENDREFELIN (BRYNCOCH), YSGOLION CYNRADD BLAENHONDDAN A CHRYMLYN**

*Ail-gadarnhaodd y Cyng. W.Griffiths ei gysylltiad a gadawodd y cyfarfod*

Eglurodd swyddogion fod yr 'Asesiad Effaith Integredig' anghywir wedi'i gynnwys fel rhan o'r pecyn agenda a ddosbarthwyd; a chynghorwyd, wrth ystyried yr adroddiad, y dylai Aelodau ddefnyddio'r 'Asesiad Effaith Integredig' a ddosbarthwyd fel atodiad i'r agenda.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid gwahardd Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor yn unol â rheol 5 a rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ddyfarnu contract yn uniongyrchol i Mc Avoys am £1,793,500.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn caniatáu i'r cyngor ddiwallu anghenion disgybl mewn darpariaethau prif ffrwd ac arbenigol drwy ddarparu llety ychwanegol yr oedd ei angen ar frys.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith ac felly nid yw'n destun i'r cyfnod galw i mewn o dridiau

**CADEIRYDD**